

Brech y Mwncïod:



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

Beth yw brech y Mwncïod?

Mae brech y mwncïod yn haint feirysol prin. Yn ddiweddar, rydym wedi gweld nifer o achosion yn y DU.

Gall yr haint gael ei ledaenu drwy gyswllt corfforol agos, fel cusanu, croen â chroen, rhyw neu rannu pethau fel dillad gwely neu dywelion.

Dyma'r arwyddion a'r symptomau:

- Smotiau, briwiau neu bothelli annisgwyl/anarferol unrhyw le ar eich corff
- Twymyn
- Pen tost / cur pen
- Poenau yn y cyhyrau
- Oerfel a blinder eithafol
- Chwarennau chwyddedig

Gallwch helpu i atal brech y Mwncïod:

Os ydych chi neu unrhyw bartneriaid diweddar wedi datblygu smotiau, briwiau neu bothelli annisgwyl neu anarferol ar unrhyw ran o'ch corff, gan gynnwys eich wyneb neu'ch organau rhywiol, ffoniwch eich gwasanaeth iechyd rhywiol lleol, neu GIG 111 cyn â phosibl. Byddwch yn cael eich trin yn sensitif ac yn gyfrinachol.

Dylech osgoi cyswllt corfforol agos ag eraill nes eich bod wedi cael cyngor meddygol. Bydd hyn yn lleihau'r siawns o'i throsglwyddo.